

CYLCHLYTHYR DEMOGRAFFEG

Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017



PRAWF CYFRIFIAD 2017

Wrth baratoi ar gyfer Cyfrifiad 2021, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi cynnal prawf yng Nghymru a Lloegr yn Ebrill 19. Roedd y prawf yn gwahodd 100,000 o aelwydydd ar draws 7 awdurdod lleol i gymryd rhan.

Powys oedd un o'r ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer y prawf.

Bydd y prawf yn helpu ONS i asesu ei systemau a chwestiynau posibl ar gyfer y cyfrifiad. Caiff Cyfrifiad 2021 ei gynnal ar-lein yn bennaf am y tro cyntaf.

Efallai y bydd ONS yn cyflwyno cwestiynau newydd mewn ymateb i'r newid yn anghenion cymdeithas ac yn dileu rhai sy'n llai perthnasol yn awr. Maent yn profi cwestiynau newydd ar hunaniaeth rywiol ac yn gwirfoddoli gyda golwg ar eu cynnwys yn y Cyfrifiad am y tro cyntaf. Un o nodau'r prawf yw dod i ddeall agweddau'r cyhoedd tuag at, y cwestiynau hyn, a chwestiynau newydd posibl eraill, a'u derbynioddeb.




YSTADEGAU ETHOLIADOL

Cyhoeddwyd y datganiad [Electoral Statistics for the UK: 2016](#) gan ONS ar 16 Mawrth 2017. Mae'n rhoi data am bobl sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau seneddol ac etholiadau llywodraeth leol fel y'u cofnodwyd yn y cofrestru etholiadol a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2016 (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

Cafwyd cynnydd o ychydig dros 1 filiwn (2.3 y cant) yn nifer yr etholwyr seneddol yn y DU rhwng Rhagfyr 2015 a Rhagfyr 2016, mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol lefel uchel y diddordeb o du'r cyhoedd yn refferendwm yr UE. Nifer yr etholwyr seneddol yng Nghymru yw 2,243,900; sef cynnydd o of 2.8 y cant rhwng 2015 a 2016.

AMCANGYFRIFON CANOL BLWYDDYN O'R BOBLOGAETH 2015



Cyhoeddwyd amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth i wledydd y DU ym Mehefin 2016 gan ONS.

Amcangyfrif canol-blwyddyn o'r boblogaeth 2015 oedd 3,099,086; sef cynnydd o 0.2 ar amcangyfrif 2014. Amcangyfrifwyd bod mwy o bobl 65 oed a throsodd yn byw yng Nghymru(625,000) na phlant 0 i 15 oed (555,000).

Yn ôl Calendr Datganiadau ONS, 22 Mehefin 2017 yw'r dyddiad rhyddhau ar gyfer yr amcangyfrifon o'r boblogaeth i'r DU, Cymru a Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon: Canol 2016.



AMCANESTYNIADAU'R AWDURDODAU LLEOL O AELWYDYDD

Cyhoeddwyd y Datganiad Ystadegol Cyntaf [Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Awdurdodau Lleol \(yng Nghymru\)](#), sail 2014 gan Lywodraeth Cymru ar 23 Mawrth 2017.

Dangosodd y ffeithiau canlynol i Gymru Nghymru rhwng 2014 a 2039:

- rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu tua 140,000 i 1.47 miliwn erbyn 2039 (hynny yw, cynnydd o 10.5 y cant);
- Yng Nghaerdydd y gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf ar gyfer awdurdodau lleol yn nifer yr aelwydydd (sef cynnydd o 32 y cant);
- Rhagwelir y bydd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr aelwydydd yn Abertawe a 15 y cant yn Wrecsam;
- Rhagwelir y bydd gostyngiad o ddau y cant yn nifer yr aelwydydd ym Mhowys, ond mae'r amcanestyniadau'n dangos cynnydd hyd at 2026 ac yna gostyngiad wedi hynny hyd at 2039;
- rhagwelir y bydd dwy allan o bob tair aelwyd yn cynnwys un neu ddau berson heb blant yn unig;
- rhagwelir y bydd aelwydydd 1 person yn cynyddu o fod yn 31 y cant o'r holl aelwydydd i fod yn 36 y cant o'r holl aelwydydd;
- rhagwelir y bydd cynnydd o 17 y cant yn nifer yr aelwydydd unig riant;
- rhagwelir y bydd maint cyfartalog aelwydydd yn gostwng o 2.29 person ym mhob aelwyd i 2.17 person ym mhob aelwyd.



AMCANESTYNIADAU'R PARCIAU CENEDLAETHOL

Disgwylir i amcanestyniadau ar sail 2014 o'r boblogaeth ac aelwydydd ar gyfer y Parciau Cenedlaethol gael eu cyhoeddi yng Nghorffennaf 2017. Cyhoeddwyd [Datganiad Ystadegol Cyntaf, Household Projections for National Parks in Wales, 2013-based](#) ym mis Mawrth 2016;

Dangosodd y canlynol am y cyfnod rhwng 2013 a 2028:

- Yn ôl yr amcanestyniadau bydd nifer yr aelwydydd yn ardaloedd y Parciau Cenedlaethol yn gostwng ychydig ond yn gyson o 37,00 yn 2013 i 36,400 yn 2028;
- Yn ôl yr amcanestyniadau bydd nifer y bobl sy'n byw yn ardaloedd y Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn gostwng yn gyson o 80,200 i 75,100;
- Yn ôl yr amcanestyniadau bydd maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru yn gostwng yn gyson o 2.16 o bobl i 2.06.

Cyhoeddwyd Datganiad Ystadegol Cyntaf, [Population Projections for National Parks in Wales, 2013-based](#), gan Lywodraeth Cymru yn Hydref 2015.

Mae Modiwl Data newydd gael ei ryddhau gan Edge Analytics, y corff sy'n rheoli cyfres POPGROUP o feddalwedd ddemograffig.

Bwriedir i'r Modiwl Data Rhagolygon Deilliannol (WG2014HH), alluogi defnyddwyr i atgynhyrchu amcanestyniadau LI.Cymru o aelwydydd ar sail 2014 ar gyfer yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cysylltu

Ffôn: 0300 025 5050; E-bost: ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk